# Polisi Amgylchedd

Mae gan Brifysgol Bangor dros 10,000 o fyfyrwyr ac oddeutu 2,000 o aelodau staff ar ystad o ryw 100 o adeiladau ar draws 300(+) hectar. Ein busnes craidd yw darparu addysgu ac ymchwil o ansawdd uchel a chymryd gofal da o'n staff, myfyrwyr, y gymuned a'r amgylchedd.

Rydym yn deall bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus a chwrdd â gofynion safon amgylcheddol ISO 14001: 2015. Byddwn nid yn unig yn ceisio diogelu ein hamgylchedd naturiol, ond hefyd yn mynd ati i geisio cyfleoedd i'w wella, gan hyrwyddo diwylliant o fod yn stiwardiaid yr amgylchedd ymysg ein staff a'n myfyrwyr a gweithio tuag at nodau datblygu cynaliadwy.

Bydd Prifysgol Bangor yn lleihau ei heffeithiau amgylcheddol niweidiol trwy:

i. sicrhau cydymffurfiad â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau
ii. rheoli gwastraff trwy leihau, ailddefnyddio a hyrwyddo ailgylchu
iii. lleihau'r defnydd o ynni a dŵr
iv. hyrwyddo mentrau trafnidiaeth cynaliadwy
v. lleihau ein cyfraniad at newid hinsawdd fyd-eang trwy gwtogi blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr
vi. hyrwyddo a chynyddu cadwraeth a chynnydd bioamrywiaeth ar draws ystâd y brifysgol
vii. ymgorffori cynaliadwyedd yn y gweithdrefnau caffael
viii. ymrwymo i atal llygru'r amgylchedd naturiol
ix. codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymwybyddiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ymysg staff a myfyrwyr trwy well cyfathrebu a chyd-gyfrannu
x. ymgorffori datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ein cwricwla ar draws y brifysgol
xi. sefydlu amcanion a thargedau amgylcheddol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol

Bydd y Polisi Amgylcheddol hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd gan Dîm Perfformiad Amgylcheddol y Campws, yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd, a'i adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Caiff ei rannu hefyd â phoblogaeth ehangach y brifysgol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol.

Llofnod gan: Dyddiad: Ionawr 17eg 2024

Yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-ganghellor, Prifysgol Bangor



1.92 re n c E/Image [Do r41.92